

CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar 8 Medi 2020

YN BRESENNOL: Cynghorydd Margaret Murley Roberts (Cadeirydd)
Cynghorydd Glyn Haynes (Is-gadeirydd)

Cynghorwyr R Dew, John Griffith, Richard Griffiths, K P Hughes, T LI Hughes MBE, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones, Eric Wyn Jones, Richard Owain Jones, G O Jones, R LI Jones, R.Meirion Jones, Alun W Mummery, Bryan Owen, R G Parry OBE FRAGS, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts, J A Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams a Robin Williams

WRTH LAW: Prif Weithredwr,
Dirprwy Brif Weithredwr,
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro,
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros dro,
Pennaeth Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo,
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,
Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol a Chontractau) (MY),
Rheolwr Sgriwtini (AD),
Swyddog Cyfathrebiadau (GJ),
Swyddog Pwyllgorau (MEH).

HEFYD YN BRESENNOL: Dim

YMDDIHEURIADAU: Cynghorydd Lewis Davies

1. ETHOL CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD Y CYNGOR

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro i'r Cyngor ar gyfer ei dderbyn.

PENDERFYNWYD nad oes angen cynnal etholiad i ddewis Cadeirydd ac Is-gadeirydd ar gyfer y Cyngor ac y bydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd presennol y Cyngor yn parhau yn eu rolau am gyfnod estynedig tan y Cyfarfod Blynyddol yn 2021.

2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ar ôl datgan diddordeb personol yn Eitem 1, penderfynodd y Cadeirydd a'r is-gadeirydd beidio â chymryd rhan yn y drafodaeth na'r bleidlais.

3. I DDERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR

Ni dderbyniwyd unrhyw gyhoeddiadau.

4. RHAGLEN CYFARFODYDD Y CYNGOR SIR AR GYFER 2020/21

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r rhaglen ganlynol o gyfarfodydd ar gyfer y Cyngor Sir ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod:-

- | | | |
|------------------------------|---|-----------------------|
| • 27 Hydref, 2020 (Arbennig) | - | 10.30 a.m. |
| • 8 Rhagfyr, 2020 | - | 2.00 p.m. |
| • 23 Chwefror, 2021 | - | 2.00 p.m. |
| • Mai (Cyfarfod Blynyddol) | - | dyddiad i'w gadarnhau |

5. DIRPRWYAETH GAN YR ARWEINYDD/AELODAETH O'R PWYLLGOR GWAITH

Yn unol â pharagraff 4.1.1.2 o'r Cyfansoddiad, dywedodd yr Arweinydd nad oedd unrhyw newidiadau i Aelodau'r Pwyllgor Gwaith na chynrychiolwyr o ran yr Aelodau Portffolio.

6. PENDERFYNIADAU PWYLLGOR GWAITH RHWNG MAI 2019 A GORFFENNAF 2020.

Cyflwynwyd adroddiad y Prif Weithredwr er mwyn i'r Cyngor allu ei dderbyn.

PENDERFYNWYD fod y Cyngor Sir yn nodi'r penderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith, drwy ffyrdd amrywiol, yn unol â'r cynllun dirprwyo sydd wedi'i gynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor Sir.

7. ETHOL CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD AR GYFER 2020/21

Yn unol â Pharagraff 3.4.12.3 o'r Cyfansoddiad **PENDERFYNWYD** y dylid ethol y Cynghorydd Robert LI Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaidd.

8. CADARNHAU'R CYNLLUN DIRPRWYO

PENDERFYNWYD cadarnhau'r rhan honno o'r Cynllun Dirprwyo y mae'r Cyfansoddiad yn nodi mai mater i'r Cyngor ydyw i'w gytuno (fel y nodir ym Mharagraff 3.2 o'r Cyfansoddiad).

9. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL

Cyflwynwyd ar gyfer ei ystyried adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar Gydbwysedd Gwleidyddol.

PENDERFYNWYD :-

- Cadarnhau’ r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol a nifer y seddau a ddyrennir i bob un o’ r Grwpiau yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;
Bod Arweinyddion Grwpiau yn hysbysu Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd cyn gynted â phosibl os oes unrhyw newidiadau i Aelodaeth Grwpiau ar Bwyllgorau.

10. CYRFF ALLANOL

Cafodd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas â phenodiad i Gyrrff allanol ei gyflwyno ar gyfer ei ystyried, yn amodol ar welliant bod y Cynghorwyr Richard Griffiths a Dylan Rees yn aelodau o Banel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a bod y Cynghorydd Eric Jones yn aelod o Bwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

PENDERFYNWYD cytuno ar a chadarnhau’r penodiadau fel y nodwyd yn yr atodiad i’r adroddiad.

11. CADARNHAU PWYLLGORAU

Cadarnhaodd y Cadeirydd ailbenodi’r strwythur Pwyllgorau canlynol fel y cyfeirir ato yn Adran 3.4 o Gyfansoddiad y Cyngor, ynghyd â’r canlynol:-

- Panel Tâl a Graddfeydd (Is-bwyllgor o’r Cyngor)
- Panel Penodi i’r Pwyllgor Safonau
- Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)
- Is-bwyllgor Indemniadau

Daeth y cyfarfod i ben am 2.30 pm

**CYNGHORYDD MARGARET M ROBERTS
CADEIRYDD**